


### 1. Y Cefndir



Daeth Heol y Gadeirlan yn Ardal Gadwraeth ym 1972 ac ehangwyd hyn yn 2007.

Mae llawer o'r adeiladau un ai'n Rhestredig yn Statudol neu'n Lleol ac mae hyn yn cynnig lefel ychwanegol o amddiffyniad yn erbyn datblygu a all achosi difrod i nodweddion arbennig yr adeiladau. Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys yr ardal oedd glas mawr, y rhai mwyaf amlwg: Caeau Pontcanna a Gerddi Sophia, sy'n barciau hanesyddol cofrestredig.

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i bob adeilad sydd yn yr Ardal Gadwraeth ac mae'n manylu'n benodol ar arddangos arwyddion ar hyd Heol y Gadeirlan. Mae'n ategu Gwerthusiad yr Ardal Gadwraeth sy'n argymhell tynnu arwyddion na chafodd ganiatâd a lleoli rhai newydd yn ofalus. [Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Heol y Gadeirlan 2007]. Mae'r canllaw yn dilyn cyngor gan Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96. Mabwysiadwyd y Canllaw gan y Cyngor ar 1 Hydref 2009.



### 2. Egwyddorion Cyffredinol



Dylai arwyddion gael eu gosod er mwyn i'r cyhoedd ddod o hyd i'r adeilad ac nid er mwyn hysbysebu'n gyffredinol.

Dylai'r arwyddion:

- Fod yn gynnil
- Bod o safon uchel
- Parchu'r ardal gadwraeth
- Cynnwys dim ond ychydig o wybodaeth

## Arwyddion ar Wynebgyrddau ac Adeiladau

- Ni ddylai arwyddion guddio manylion pensaernïol na thynnu oddi ar gymeriad adeilad.
- Dylid cyfyngu'r arwyddion i fod ar lefel y llawr gwaelod yn unig ac wedi eu lleoli'n sensitif.
- Mae rhoi arwyddion ar bob llawr yn annerbyniol.
- Yn ddelfrydol, dylid gosod llythrennau fesul un uwchben y brif fynedfa.

## Lliw

- Mae arwyddion llachar a chryf yn rhy amlwg ac yn annerbyniol.
- Mae defnyddio lliwiau tywyll megis: gwyrdd, coch, glas tywyll neu ddu yn cadw at naws yr adeiladau. Dylai'r cynlluniau lliw gyd-fynd ag arlliw naturiol a deunydd yr adeilad, gan gynnwys fframiau ffenestri a mynedfaoedd.

## Goleuadau

- Mae arwyddion gyda golau mewnol fel arfer yn rhy llachar, ac oherwydd eu modernedd, maen nhw'n annerbyniol.
- Fel rheol, mae goleuo'r tu allan gyda llifoleuadau bychain neu sbotoleuadau yn dderbyniol. Fodd bynnag, rhaid i'r goleuadau fod yn fychain ac wedi eu gosod yn ofalus fel mai'r arwyddion yn unig y maen nhw'n eu goleuo, yn hytrach na'r holl adeilad. Dylai tanbeidrwydd y golau barchu'r cymdogion.
- Dylid cuddio unrhyw wifrau neu switshys.

## Cynllun

- Dylai'r arwyddion fod yn syml. Ni chaniateir defnyddio nodweddion ychwanegol, megis gwaith haearn o amgylch yr arwydd oherwydd gallant ymddangos yn flêr.
- Ni ddylid cynnwys mwy o wybodaeth nag enw'r busnes neu gwmni a natur y busnes.
- Anogir arwyddion dwyieithog.
- Dylid ceisio peidio â defnyddio deunydd sy'n adlewyrchu, h.y. plastig. Byddai pren yn well.
- Nid yw adeileddau eraill ynghlwm wrth yr adeilad, megis polion baner gyda baneri neu doeon plastig â hysbysebion arnynt, yn dderbyniol.

## Maint

- Un arwydd cwrw blaen a ganiateir ar gyfer pob adeilad.
- Dylai fod o leiaf 1cm y tu cefn i wal ffiniol flaen yr eiddo, neu dylai fod o flaen y ffenestr fae (ar yr amod nad yw'n cuddio unrhyw fanylion pensaernïol).
- Rhaid iddo fod yn gyfochrog â'r wal flaen ffiniol.

- Nid yw arwyddion ar ongl na rhai dwyochrog yn dderbyniol.
- Ni ddylai pan yr arwydd fod yn uwch na 1.5medr uwchlaw'r ddaear a dylai siâp yr arwyddion fod yn hirsgwar.
- Nid yw dangos baneri parhaol na dros dro ar waliau'r adeiladau'n dderbyniol.
- Mae arwyddion ar flaen neu ar ochr waliau ffiniol, ar bileri neu ar y palmant yn annerbyniol.

## Arwyddion asiantau

- Rhaid i faint a nifer arwyddion ar werth neu ar log fod yn unol â rheoliadau hysbysebion y llywodraeth h.y. un yn unig ar gyfer pob eiddo.

### 3. Enghreifftiau o Gynlluniau Derbyniol ac Annerbyniol Sut mae cael caniatâd





Os ydych yn ystyried gosod arwydd newydd ac yr hoffech dderbyn cyngor, dylech gyflwyno ymholiad cyn gwneud cais i [www.caerdydd.gov.uk/cynllunio](http://www.caerdydd.gov.uk/cynllunio)

Mae'n bosib y bydd angen Caniatâd Hysbysebu er mwyn dangos arwyddion. Bydd arwyddion heb ganiatâd yn anghyfreithlon, ac mae'n bosib i hynny arwain at erlyn gyda dirwyon o hyd at £5000.

Bydd angen Caniatâd Adeilad Cofrestredig er mwyn dangos arwyddion ar Adeiladau Cofrestredig bod angen caniatâd hysbysebu ai peidio.

